

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 26 Mehefin 27, 2024 50c.


Cymanfa Ganu 2024

'Dyma gariad wna i'm ganu yn y bythol wynfyd mawr.'

Dychwelyd at ddigwyddiad sy'n llwyr gyfarwydd yn yr ardal wnaeth rhai o eglwysi Gofalaeth Bröydd Teifi wrth i gymanfa ganu undebol Annibynwyr Pencader a'r cylch, sy'n cynnwys eglwysi Annibynnol Tabernacl, Gwyddgrug, Capel Nonni a Gwernogle, ddod ynghyd i foli drwy gân ar ddydd Sul 19 Mai. Yr un oedd y fendith o allu ymgynnull er mwyn parhau i gynnal y digwyddiad pwysig hwn.

Oedfa'r plant

Cafwyd dwy oedfa fendithiol iawn yng nghapel Tabernacl, yn nwylo medrus yr arweinydd gwadd, sef Daniel Rees o Waungilwen, a braf oedd gallu estyn gwahoddiad yn ôl i'n plith yn dilyn llwyddiant ysgubol cymanfa'r llynedd. Tro'r plant oedd dangos eu doniau yn y prynhawn a chyda chymorth Band y Diarhebbion, cawsom oll fwynhad o wrando ar y plant yn mwynhau canu'r emynau. Roedd hi'n braf cael cyfle i dreulio'r prynhawn yn sgwrsio ag eraill yn ystod y te a baratowyd gan aelodau Tabernacl.



Ffynhonnau Byw

Oedfa'r oedolion

Tro'r oedolion oedd hi gyda'r hwyr ac ni siomwyd y cantorion na'r gynulleidfa o dan arweiniad hawddgar Daniel. Cafwyd ymateb gorfoleddus gan bawb gyda chanu moliant pedwar llais yn atseinio drwy'r capel.

Diolch diffuant i bawb fu'n rhan o'r trefniadau ac a sicrhodd gymanfa lwyddiannus iawn eleni eto.

Wrth i oedfa'r hwyr dynnu at ei therfyn yn sain gorfoleddus y briodas arbennig rhwng o emyn dôn T. D. Edwards, sef 'Rhydygroes' a chyfieithiad iasol J. R. Jones:

O boed i'th ras anfeidrol, gwiw
a gwrth dy gariad mawr, O Dduw,
orlenwi'r ddaear faith â'th glod
hyd nefoedd, tra bo'r byd yn bod:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

Boed hir oes i draddodiad canu moliant pedwar llais yn yr ardal a chamwn ymlaen yn hyderus at gymanfaoedd y dyfodol drwy sicrhau lle teilwng i ganu cynulleidfaol ym Mröydd Teifi.

*Siân Thomas,
Ysgrifennydd Pwyllgor y Gymanfa*

Prynu'r Salem Newydd i'r genedl am £9,000

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi prynu 'Salem Revisited' gan yr arlunydd Hywel Harries (1921–90) am £9,000 mewn arwerthiant gan y cwmni Cymreig Rogers Jones. Dyma fersiwn mwy diweddar mewn arddull gwahanol o lun eiconig Curnow Vosper o Sian Owen, Ty'n y Fawnog a ffyddloniaid eraill capel Salem, Cefncymerau a beintiwyd yn 1908. Hwnnw oedd y llun Cymreig enwocaf erioed, ac ar un adeg roedd copïau o'r gwreiddiol i'w gweld mewn miloedd di-ri o gartrefi. Peintiwyd ail un tebyg i'r cyntaf gan Vosper yn 1909, ac fe brynwyd hwnnw gan y Llyfrgell Genedlaethol yn 2019. Sylwch fod Hywel Harries wedi gwneud 'siâp wyneb y diafol' (honedig) yn fwy amlwg ar hwn.



Etholiadau a'r Eglwys Annibynnol

Wrth i etholiadau cyffredinol y DU a Chymru agosáu, mae'r groesffordd rhwng gwleidyddiaeth a chrefydd unwaith eto'n dod yn ganolbwynt trafodaeth. Mae'r cyfnod hwn o wneud penderfyniadau democrataidd yn hollbwysig nid yn unig i'r dirwedd wleidyddol ond hefyd i'r gymuned eglwysig, yn enwedig yr Eglwys Annibynnol Gymraeg yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae'r eglwys wedi chwarae rhan arwyddocaol wrth lunio gwerthoedd cymdeithasol a darparu arweiniad moesol, ac mae ei dylanwad yn parhau'n berthnasol heddiw.

Cyd-destun hanesyddol

Mae gan yr Eglwys Annibynnol Gymraeg, wreiddiau dwfn yn hanes Cymru, yn dyddio'n ôl i'r 17eg ganrif. Mae'r traddodiad hwn o annibyniaeth ac anghydfurfiaeth wedi dylanwadu'n fawr ar ddiwylliant a gwleidyddiaeth Cymru. Roedd yr eglwys yn eiriolwr cryf dros gyfiawnder cymdeithasol, addysg, a'r iaith Gymraeg, pob un ohonynt yn faterion hollbwysig mewn unrhyw etholiad. Yn ystod cyfnodau o newid gwleidyddol, mae'r eglwys yn aml wedi bod yn llais i'r rhai sydd ar y cyrion, gan eiriol dros bolisiau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a lles cymunedol.

Cyfarwyddyd moesol a moesegol

Yn y cyfnod cyfoes, mae'r eglwys yn parhau i gynnig arweiniad moesol a moesegol i'w chynulleidfaoedd. Wrth i ddiwrnod yr etholiad agosáu, mae llawer o eglwyswyr yn troi at eu harweinwyr ffydd am fewnwelediad i sut i alinio eu pleidleisiau â'u gwerthoedd ysbrydol. Mae'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, gyda'i phwyslais ar gyfiawnder cymdeithasol a gwasanaeth cymunedol, yn annog ei haelodau i ystyried goblygiadau ehangach eu dewisiadau etholiadol.

Mae dysgeidiaeth yr eglwys yn aml yn amlygu pwysigrwydd tosturi, uniondeb, a stiwardiaeth, a all fod yn lensys hollbwysig ar gyfer gwerthuso ymgeiswyr a pholisïau gwleidyddol. Er enghraifft, mae materion fel gofal iechyd, addysg, lliniaru tlodi, a stiwardiaeth amgylcheddol yn aml ar flaen y gad ar lwyfannau gwleidyddol a chenhadaeth yr eglwys. Trwy hyrwyddo pleidleisio meddylgar a gwybodus, mae'r eglwys yn helpu i sicrhau bod y gwerthoedd craidd hyn yn cael eu cynrychioli yn y byd gwleidyddol.

Ymrwymiad gwleidyddol ac eiriolaeth

Nid yw ymwneud yr eglwys ag eiriolaeth wleidyddol yn ymwneud â chymeradwyo



ymgeiswyr neu bleidiau penodol ond yn hytrach â meithrin dinasyddiaeth wybodus a gweithgar. Mae gan yr Eglwys Annibynnol Gymraeg draddodiad o annog ei haelodau i ymwneud â phrosesau gwleidyddol, gan ddeall bod ffydd a chyfrifoldeb dinesig yn mynd law yn llaw. Gall y cyfranogiad hwn fod ar sawl ffurf, megis cynnal trafodaethau ar faterion gwleidyddol, annog cofrestru pleidleiswyr, a darparu llwyfannau ar gyfer deialog cymunedol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r eglwys hefyd wedi bod yn ymwneud â mudiadau cymdeithasol ehangach sy'n croestorri materion gwleidyddol. Er enghraifft, mae ymgyrchoedd dros gyfiawnder cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd, a hawliau dynol yn cyd-fynd â llawer o ddysgeidiaeth yr Eglwys Annibynnol Gymraeg. Trwy gymryd rhan yn y symudiadau hyn, mae'r eglwys nid yn unig yn cefnogi ei gwerthoedd ond hefyd yn grymuso ei haelodau i gyfrannu at newid cymdeithasol.

Galwad i weithredu

Wrth i ni nesáu at yr etholiadau cyffredinol, mae'n hollbwysig i aelodau'r Eglwys Annibynnol Gymraeg fyfyrïo ar eu dyletswyddau dinesig. Mae pleidleisio nid yn unig yn hawl ond hefyd yn gyfrifoldeb a all siapiro dyfodol ein cymunedau. Mae'r eglwys yn annog ei haelodau i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd hon yn feddylgar ac yn weddigar, gan ystyried sut y gall eu pleidleisiau gyfrannu at les pawb. Ar ben hynny, gall yr eglwys chwarae rhan ganolog wrth feithrin ysbryd o undod a chydweithrediad yn ystod y cyfnod gwleidyddol hwn. Trwy bwysleisio gwerthoedd cyffredin a nodau cyffredin, gall yr eglwys helpu i bontio rhaniadau a hyrwyddo cymdeithas fwy cydlynol a thosturiol.



Dydd Sul, Mehefin 30ain, 2024
am 2.00

Oedfa ddwy-ieithog i ddatlu
200 mlynedd

Bethel, Llanddewi Efelldre

Pregethwr Gwadd :
Parchg. Wyn Thomas (Tir Dewi)

Croeso cynnes i bawb

Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

SUL SBESIAL 2024

Yr Egin S4C Caerfyrddin

14 Gorffennaf 2.00-3.15



Siaradwr Gwadd: DAFYDD LLYWELYN

Comisiynydd Heddlu Dyfed-Powys

Llywyddu: Parchg Guto Prys Ap Gwynfor

Sesiwn y plant: Ann Evans

Dechrau'r cwrdd: Ysgol Sul Bryn Iwan

Cyfeilio: Band Y Priordy

Mynediad am ddim. Caffi ar agor.

Croeso cynnes iawn i bawb!

Noddir Sul Sbesial 2024 gan
DDYDD GWEDDI'R BYD



Mae'r berthynas rhwng yr etholiadau cyffredinol a'r Eglwys Annibynnol Gymraeg yng Nghymru yn un o ddyllanwad a gwerthoedd a rennir. Wrth i'r etholiadau agosáu, mae rôl yr eglwys mewn arwain, addysgu, ac eiriol dros ei haelodau yn parhau mor hanfodol ag erioed. Trwy ymwneud â'r broses wleidyddol drwy lens eu ffydd, gall aelodau'r Eglwys Annibynnol Gymraeg gyfrannu at adeiladu cymdeithas gyfiawn, deg, a thosturiol.'[-

Gwyn Jones
(oddi ar wefan eglwys Seion, Drefach)

Gweddi dros yr Etholiad Cyffredinol gan Gymdeithas y Beibl

Dduw pob llywodraeth, anfon gweithwyr i faes cynhaeaf bywyd gwleidyddol.

Galw ar dy bobl – nid yn unig y rhai sy'n honni eu bod yn dy adnabod, ond y rhai sy'n adnabod dy lais ac yn gwybod dy enw.

Galw'r rhai na fyddant yn gwasanaethu dau feistr, y rhai a fydd yn dewis teyrnas dros lwyth, y rhai nad oes ganddynt gywilydd o'r efengyl a'r rhai a fydd yn siarad dros y rhai na allant siarad drostynt eu hunain.

Galw'r rhai a fydd yn ceisio cyfiawnder, yn annog y gorthrymedig, yn amddiffyn achos yr amddifad, ac yn pledio achos y weddw.

Galw'r rhai sy'n ceisio cymodi yn fwy na gwahanu, y rhai sy'n ceisio cydweithredu yn fwy na chystadlu a'r rhai sy'n ceisio heddwch yn fwy na grym.

Galw'r rhai fydd yn dewis dy ogoniant dros hyrwyddo'u hunain a'r rhai a fydd yn dewis y gwirionedd dros hwylustod.

Galw'r rhai fydd yn gwrando ar y llef ddistaw fain yn fwy na megaffon y cyfryngau a'r rhai a fydd yn gofalu am y lleiaf, yn hytrach nag ymgyrnu i'r mwyaf.

Galw'r rhai sy'n dod o hyd i'w hunaniaeth a'u diogelwch mewn etholiad dwyfol yn hytrach nag etholiad gan ddynolryw, y



rhai y mae eu dinasyddiaeth yn y nefoedd, y rhai sydd a'u prif deyrngarwch i frenin arall.

Galw'r rhai na allant beidio â siarad am y rheswm tu ôl i'r gobaith sydd ganddynt – y rhai sy'n gwybod bod Dy ras yn cwmpasu eu methiannau.

Galwch allan fyddin a fydd yn ymladd nid ag arfau'r byd hwn, ond â nerth grymus Dy deyrnas heddychlon. Amen.

Mae Rhun Dafydd wedi bod yn Gadeirydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. Wrth gamu o'r gadeiryddiaeth, fe rannodd y sylwadau hyn. Diolch iddo am ei waith dros y tair blynedd diwethaf.



Mewn Heddwch

Dwi wedi bod yn gadeirydd ar Gymdeithas y Cymod ers tair blynedd ac mae nawr yn gyfle i rywun arall gymryd yr awenau. Dwi'n mawr obeithio fy mod wedi gallu gwneud gwahaniaeth i gymodi a heddychiaeth yn ystod fy nghadeiryddiaeth a bod proffil y mudiad wedi codi ers hynny.

Mae yna sawl uchafbwynt yn ystod y cyfnod, ond mae'n anodd meddwl am y rhain wrth weld y byd yn plymio i ddyfnderoedd tywyll iawn. Ac mae'r rheswm dros hynny'n amlwg iawn: cynnydd mewn rhaniadau sy'n achosi gwrthdaro a rhyfel. Mae'r neges ein bod yn fwy tebyg i'n gilydd na'r gwahaniaethau rhyngom yn dal yr un mor bwysig.

Ond beth sy'n wirioneddol y tu ôl i hynny ac sydd wedi ei amlygu yn fwy fyth yn ddiweddar yw effaith y diwydiant arfau ar ddiodeffaint. Arian a thrachwant

canran fechan o bobl yw'r rheswm tu ôl i'r rhan fwyaf o ryfeloedd sy'n digwydd heddiw. Ac fel y gwyddom, pobl gyffredin a diniwed sy'n bypedau yn hyn i gyd. Dwi'n meddwl ei bod yn ddigon hawdd i ni feddwl am ddiodeffaint y bobl yma fel un sy'n ddigon pell fel nad oes raid i ni ofidio amdano. Ond, ai dyna rydym ei eisiau? Mae rhyfel wastad yn cael ei weld fel gwrthdaro rhwng dwy ochr. Ond onid yw'n bosib gwrthod unrhyw fath o drais a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ddinasyddion rhyngwladol sydd eisiau gweld cyfiawnder i bawb?

Esiampl euraid sy'n dangos nad oes neb yn ennill mewn rhyfel yw'r ffordd y mae cyn-filwyr yn cael eu trin. Er yr holl siarad gan Lywodraeth Prydain am eu haberth, mae miloedd ohonynt yn cael eu hanghofio o fewn cymdeithas. Mae canran uwch o gyn-filwyr yn profi tloedi a phroblemau iechyd meddwl na'r boblogaeth gyffredinol. Mae oddeutu 11,000 o gyn-filwyr yn ddigartref, sy'n llai

na niferytai gwag sydd dan berchnogaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dyma ddangosydd arall sut mae rhyfel yn troi pobl yn rhif yn hytrach nag yn gymydog.

Dwi wedi'i chael yn anodd iawn esbonio ar adegau beth yw heddychiaeth a chymodi. Ac mae'n gallu bod yn fater personol i bob unigolyn. Yn anffodus, mae gwrthdaro yn ein natur ddynol, ond mae cymodi'n golygu ein bod yn medru datrys gwrthdaro'n heddychlon.

Nid mater i'w drafod yn ystod gwrthdaro yn unig yw heddwch. Pam mai dim ond yn ystod adegau o drais digynsail y mae arweinwyr byd yn rhoi sylw i heddwch? Proses yw heddwch, nid canlyniad y dylem edrych arno fel arf i osgoi rhyfel. Mae'n bryd buddsoddi mewn heddwch. Dychmygwch faint o newid y gallwn ei wneud os byddwn yn buddsoddi dim ond canran o wariant ac ymdrech dros ryfel ar gymodi.

Mewn heddwch,
Rhun Dafydd

Her wŷr i gofio ‘mam-gu’ anhygoel

**cymorth
crisnogol**

Mae Iwan Williams, uwch-swyddog ymgysylltu cymunedol Prifysgol Bangor, yn ymgymryd â her uchelgeisiol er cof am ei fam-gu, Irene Williams, a fu'n gyfrifol am sefydlu llawer Pwyllgor Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

Bydd Iwan, sy'n 41 oed, yn ceisio dringo i gopa tri o fynyddoedd uchaf Cymru – a hynny o fewn un diwrnod. Ddydd Mawrth, 2 Gorffennaf, bydd yn dringo Pen y Fan, Powys – copa uchaf de Cymru; Cadair Idris ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yna'r Wyddfa – copa uchaf Cymru.

‘Rwyf wedi bod i fyny'r Wyddfa ddwywaith,’ eglura Iwan. ‘Dw i'n weddod ffit, ac wedi cymryd rhan mewn llawer ras a marathon. Roeddwn eisiau gwneud rhywbeth gwahanol er mwyn anrhydeddu Mam-gu a chodi arian er cof amdani. Roedd hi'n wraig anhygoel ac fe wnaeth hi fy ysbyrdoli i a llawer o bobl eraill. Mae codi arian i Gymorth Cristnogol yn gwneud synnwyr, felly, wrth gofio pa mor angerddol oedd Mam-gu dros Gymorth Cristnogol am ddegawdau.’

Yn wreiddiol o Landysul, yn ystod ei blentyndod fe dreuliodd Iwan lawer iawn o amser gyda'i fam-gu a'i dad-cu, Irene a Cyril, yng Nghwm-ann. Roeddent yn adnabyddus iawn yn yr ardal: Cyril yn weinidog yn Eglwys Annibynnol y Priordy, Caerfyrddin, yn y 1950au ac Irene yn arloesi ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

Ceir llawer o hanes y cyfnod yn llyfr Dewi Lloyd Lewis, Ysgrifennydd Cenedlaethol cyntaf Cymorth Cristnogol yng Nghymru,

sef *Beginnings*. Yn ôl y gyfrol, pan oedd yn byw yng Nghaerfyrddin, ‘trefnodd Irene y casgliad drws-i-ddrws cyntaf yn y dref a chodi £64. Defnyddiwyd tuniau i gasglu gan nad oedd blychau casglu nac amlenni ar gael bryd hynny.’

Symudodd i Gaerdydd yn 1958 a sefydlu gyda dau arall gangen Cymorth Cristnogol. Roedd yr ystafell fyw ar ffordd St Isan yn cael ei disgrifio fel *nerve centre* ar gyfer Cymorth Cristnogol. Ar un achlysur cyrhaeddodd criw o ferched Gapel Tabernacl, yr Ais, yn barod i werthu cacennau cri o garafán ar y pafin. Yn anffodus roedd drws y garafán yn wynebu reilings y capel! Casglodd Mam-gu'r dynion ynghyd a gofyn i'r heddlu stopio'r traffig er mwyn troi'r garafán rownd i wynebu'r cwsmeriaid eiddgar. Yn ystod ei bywyd, a hithau'n Gadeirydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan am 18 o flynyddoedd, llwyddodd i godi miliynau ar gyfer prosiectau oedd yn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol.

Meddai Iwan, ‘Roedd gwaith Cyril fel Athro Astudiaethau Crefyddol yn eu harwain i deithio'n fyd-eang ac roedd ganddynt ddiddordeb mawr mewn materion rhyngwladol.’

‘Ar un adeg, byddai eu cartref fel canolfan answyddogol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol oedd yn astudio yn Llanbed,’ eglurodd Iwan gyda gwên. ‘Os oeddech chi'n fyfyrwr rhyngwladol yn Llanbed yn yr 80au a'r 90au, mae yna siawns dda eich bod wedi cael croeso yng nghartref Mam-gu a Dad-cu. Roeddwn yn aml yn cyfarfod myfyrwyr



o Asia, Affrica a Gogledd America yn y tŷ, ac roedd llawer ohonyn nhw wedi cadw mewn cysylltiad â Mam-gu hyd y diwedd.’

Ar ôl iddi golli Cyril ugain mlynedd yn ôl, parhaodd Irene i fyw yn annibynnol hyd at ei phen-blwydd yn 100 oed, cyn symud i gartref gofal. Yn mis Ionawr eleni, bu farw yn 102 oed.

‘Roedd hi'n benderfynol ac yn llawn enaid,’ ychwanegodd Iwan. ‘Gwraig anhygoel a gafodd fywyd anghredadwy. ... Rhoddodd Irene fywyd o wasanaeth i Gymorth Cristnogol. Roedd hi'n wraig i weinidog ac Athro ac yn llawer, llawer mwy. Pwy a wŷr pa yrfa y byddai wedi llwyddo ynddi pe bai'n gyfnod gwahanol.’

‘Roedd ganddi ddiddordeb brwd mewn materion cartref a rhyngwladol, ac yn medru trafod unrhyw beth: byddai'n bosib trafod y byd gyda hi drwy'r dydd. Pobl yn cydweithio ar draws ffiniau o bob math – gwleidyddol, ieithyddol, crefyddol – dyna oedd ei dyhead.’

‘A beth am y profiadau bywyd gafodd hi. Nid llawer sydd wedi cyfarfod yr Archesgob Desmond Tutu, ddwywaith, na Martin Niemöller, y diwinydd oedd yn gwrthwynebu Hitler. Croesawodd fynach Bwdaidd, y Bendigaid Feistr Chin Kung, i'w chartref; treuliodd un gaeaf yn teithio o amgylch India; teithiodd i Korea gyda Dad-cu; a bu'n ymweld â Chiwba a De Affrica gyda'i ffrind o'r Cenhedloedd Unedig.’

‘Hoffwn feddwl y byddai wrth ei bodd fy mod yn gwneud rhywbeth ar gyfer achos oedd mor agos at ei chalon.’

Mae Iwan wedi codi £520 o'i darged o £750 yn barod. I gefnogi Iwan a gwaith Cymorth Cristnogol, ewch i'r dudalen hon, os gwelwch yn dda: <https://www.justgiving.com/page/iwan-williams-trichopacymru2024>.



Iwan (ar y chwith) gydag Irene

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 30
Cenhadaeth ar y traeth



unrhyw beth, ond yn falch o weld plant a phobl ifanc yn mwynhau eu hunain wrth glywed am Iesu fel ffrind plant bach ac yn dweud rhywbeth perthnasol am fywyd. Nid oes disgwyl i'w heglwys hwy weld cynnydd yn nifer y rhai sy'n mynychu, ond dyfalwn fod aelodau'r tîm yn teimlo bendith wrth wneud ac yn dychwelyd adref wedi derbyn llawer mwy na'r hyn roeddent wedi ei roi. Diolchwn i Dduw am y bobl hyn, gan weddio bod y deyrnas yn cynyddu rywfodd, rywle, heb ein bod yn mynd i wybod ble mae'r had yn disgyn na pha fesur y cynhaeaf.

Gweddi

Nefol Dad, diolch am bob cenhadaeth, beth bynnag ei chyfrwng, a heddiw dathlwn ymdrechion y bobl sy'n rhoi o'u hamser rhydd i gynnal cenhadaeth ar y traethau. Boed i'r ifanc a ddysgodd rywbeth am Iesu dymuno clywed mwy, ac y bydd y gân a ddysgwyd ganddynt yn aros yn eu cof a'u calon. Amen.

Cwestiynau i'w ystyried

1. Pam fyddai Paul wedi mynd lawr at lan yr afon i chwilio am rywrai i wrando arno?
2. Term lled newydd yng Nghymru yw 'gweinidogaeth arloesol' neu 'pioneer ministry', sef mynd at y man lle bydd pobl yn cyfarfod a chwilio am gynulleidfa. Ble allai pobl ymgynnull yn eich ardal chi, a beth fyddai'n dal eu sylw?
3. Sut berson oedd Lydia cyn iddi glywed Paul yn siarad? Beth tybed a'i denodd hi i wrando?
4. Rhannwch â'ch grŵp eich atgof cynharaf chi o sylweddoli bod gwrandao ar dystiolaeth person arall yn sôn am Iesu yn ddifyr ac yn berthnasol i chi.
5. Pa brofiad ysbrydol a gawsoch y gallech ei rannu â pherson di-ffydd?

Gweddi

Arglwydd y tymhorau oll, diolchwn am yr haf a'r hwyl sy'n brofiad i lawer. Mwynhawn y cyfleoedd i ymlacio, ac wrth ymweld ag ambell draeth diolchwn am y bobl sy'n defnyddio'u hamser rhydd i gynnal cenhadaeth i blant ar y traethau ac sy'n gweld cyfleoedd newydd i sôn am Iesu. Gweddiwn y daw cyfle i ni sôn am Iesu wrth eraill, ac y byddwn yn barod i siarad amdanat yn ddiwyll ac yn agored, pa mor syml bynnag fo ein stori. Amen.

Cyflwyniad

Un o ddarlenniadau hyfryd Llyfr yr Actau yw'r un lle mae Paul yn cyrraedd Philipi ac yn penderfynu mynd i lawr i gyfeiriad yr afon yn y dybiaeth y gallai gyfarfod â phobl yn hamddena. Pwy ddaeth yno ond Lydia, a hi oedd y gyntaf o nifer a wrandawodd ar ei dystiolaeth ac a ddaeth yn Gristion. Yn yr un ffordd, ceir darlenniadau lle roedd Iesu yn mynd ar ei daith ac yn cyfarfod â rhywun sy'n galw arno neu'n dal ei sylw. Nid oes cynllun penodol, ond bod y cyfleoedd hyn wedi dod â phobl ag anghenion penodol ato, gan gynnig llwyfan i wers neu wyrth. Mae cenhadaeth yr eglwys o hyd yn gofyn am feddwl ymlaen llaw a gweddio am arweiniad Duw. Un o ryfeddodau stori'r eglwys yn ei chenhadaeth yw bod yr annisgwyl yn digwydd. Ni ddylai unrhyw un dybied bod y cyfan yn dibynnu arno ef neu hi. Yn hanes Philip a'r eunuch

(Actau 8), daw cyfle i rannu stori Iesu sy'n arwain at dröedigaeth. Pwy a wŷr beth fydd y cyfle a ddaw i'n rhan nesaf? Mae gofyn i'r Cristion fod yn barod gyda'i stori am Iesu ac am ei ffydd ei hun!

Myfyrddod

Bydd rhai eglwysi'n teimlo ar eu calon i gynnal gweithgaredd ar y traeth yn ystod yr haf. Mwy na thebyg y gwelodd amryw o'n plith griw o bobl yn denu sylw plant a chynnal gweithgaredd hwyliog a cherddorol. Bydd rhai fel eglwys nid nepell o Benarth yn cynnal sesiwn ar draeth y Barri tra bydd eglwysi eraill yn teithio'n bell ac yn defnyddio gwyliau personol fel amser i hyrwyddo cenhadaeth traeth.

Pa fath o bobl sy'n debygol o wneud hyn a pha fath o gynulleidfa y maent yn gobeithio'i denu? Cefais gyfle'n ddiweddar i weld hyn mewn llefydd fel Saundersfoot, Sir Benfro, a Benllech, Ynys Môn, a sylwais fod pobl o bob oed yn rhan o'r tîm – boed yn ardegywr neu'n bobl o oed ymdddeol. Byddant yn amrywio o ran eu doniau: rhai yn arwain y canu, eraill yn trefnu gemau, rhai yno fel cefnogwyr hwyliog – pawb yn gweld eu gwaith ac yn bwrw iddi. Nid oedd y rhai a welais yn broffesiynol neu wedi derbyn hyfforddiant arbennig, dim ond eu bod â ffydd ddiwyll, amser ac ewyllys i ymroi i'r tasgau ac yn barod i fod yn rhan o'r tîm. Nid oes arwydd eu bod yn disgwyl

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 30 Mehefin, am 7:30yh – Uchafbwyntiau 1

Ymunwch â Lisa Gwilym i fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres, yn cynnwys sgysiau difyr gyda'r cyfansoddwr Gareth Glyn a'r Parchedig Ddoctor Rosa Hunt, a thaith i ddysgu mwy am olion crefyddol gogledd Sir Benfro. A chawn fwynhau canu mawl ysbrydoledig o bob cwr o Gymru.

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 30 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Karl Davies

Oedfa Radio Cymru

Sul, 30 Mehefin, am 12yp

Oedfa dan ofal Rhun ap Iwan, Bro Enlli

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Siarad am Iesu: Cyflwr y ffydd yng Nghymru

Dyma ran gyntaf erthygl gan Maggie Hughes, Caersalem, Caernarfon

Yng nghanol mis Mai es i i gyfarfod yn Hen Golwyn, oedd wedi cael ei drefnu gan Hope Together a'r Cynghrair Efengylaidd i gyflwyno canlyniad arolwg a gynhaliwyd rhwng 28 Ionawr a 13 Chwefror, 2022.

Cynhaliwyd yr arolwg gan Savanta ComRes, cwmni Ymchwil Marchnata. Mi wnaethon nhw arolwg 10 munud ar-lein am gyflwr y ffydd Gristnogol yn y DU. Roedd hwn yn ddilyniant i ymchwil debyg yn 2015. Mae'n rhoi llawer o fewnwelediad inni ar gyflwr ffydd yng Nghymru a'r DU, sut mae pobl yn dod i ffydd yn Iesu, a sut y gallwn ni siarad am Iesu yn fwy effeithiol efo'n ffrindiau ac yn ein cymunedau.

Er mwyn cael golwg eich hun ar yr adroddiad neu lawrlwytho cyflwyniad ohono ar PowerPoint ewch i'r wefan isod:


<https://talkingjesus.org/research>

Mae 4 adran i'r adroddiad sef: pobl y tu allan i'r eglwys, siarad am Iesu, sut mae pobl yn dod i ffydd a'r camau nesaf.

Cyflwr y ffydd yn 2022

Roedd 48% o'r sampl yn dweud eu bod nhw'n cyfrif eu hunain yn Gristnogion (41% yng Nghymru).

Roedd 16% yn cyfrif eu hunain yn affyddwyr neu'n agnostigiaid (20% yng Nghymru).



Roedd 8% yn dilyn ffydd arall (5% yng Nghymru).

Roedd 28% yn dweud nad oedden nhw'n perthyn i'r un o'r categorïau blaenorol neu ei bod yn well ganddyn nhw beidio â dweud (39% yng Nghymru).

Allan o 48% (41% yng Nghymru) oedd yn dweud eu bod nhw'n Gristnogion dim ond 6% oedd yn ymarfer eu ffydd.

Y meini prawf ar gyfer perthyn i'r grŵp olaf yma oedd eu bod nhw yn rhan o eglwys ac yn mynd o leiaf unwaith y mis a hefyd yn darllen y Beibl ac yn gweddïo o leiaf unwaith yr wythnos.

Roedd 49% o bobl yn meddwl bod Iesu yn fod dynol real a 32% yn meddwl ei fod yn gymeriad mytholegol neu'n gymeriad mewn llyfr.

Roedd 20% (17% yng Nghymru) yn credu bod Iesu Grist yw Dduw oedd yn byw ymysg pobl yn y ganrif 1af.

Roedd 53% yn meddwl bod Iesu yn fod dynol neu'n broffwyd /arweinydd ysbrydol ond nid yn Dduw.

Wrth ddisgrifio Iesu roedd y mwyafrif o bobl yn dewis ansoddeiriau cadarnhaol. Roedd hyd yn oed 22% o'r bobl heb ddim crefydd yn dewis 'cariadus' fel y pumed ansoddair. Ymhlith y Cristnogion roedd 76% yn dewis "cariadus" fel y prif ansoddair.

Roedd 47% yn credu yn yr atgyfodiad ond 29% yn meddwl bod rhai o'r hanesion yn y Beibl yn cynnwys pethau na ddylid eu cymryd yn llythrennol.

Doedd 41% ddim yn credu yn yr atgyfodiad a 10% ddim yn gwybod.

Pobl tu allan yr eglwys

Yn yr adran am bobl tu allan i'r eglwys holwyd ble bydden nhw'n mynd i ddarganfod mwy am y ffydd Gristnogol. Atebodd 32% o'r bobl yng Nghymru y bydden nhw'n darllen y Beibl. Dim ond 26% fyddai'n defnyddio Google. Byddai 20% yn mynd i eglwys leol.

Roedd 62% o'r bobl yng Nghymru nad oedd yn cyfrif eu hunain yn Gristnogion yn adnabod rhywun oedd yn Gristion. Roedd pobl â mwy o addysg yn fwy tebygol o adnabod rhywun oedd yn Gristion. Roedd 36% yn adnabod ffrind oedd yn Gristion a 36% yn dweud bod aelod o'r teulu yn Gristion ond dim ond 2% oedd yn adnabod arweinydd eglwys.

Ar y cyfan roedd bobl oedd ddim yn Gristnogion yn disgrifio Cristnogion mewn termau positif iawn. Roedd 63% yn dweud eu bod nhw'n gyfeillgar a 51% yn dweud eu bod nhw'n ofalgar.

Doedd y bobl oedd ddim yn Gristnogion ddim mor gadarnhaol am yr eglwys ag yr oedden nhw am yr unigolion roedden nhw'n eu hadnabod.

Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Adnoddau newydd

Mae llawer o adnoddau newydd yn cael eu gosod ar sianel YouTube Undeb yr Annibynwyr sef Teledu Annibynwyr. Gellir cael mynediad iddynt un ai trwy wefan yr Undeb neu'n uniongyrchol ar YouTube. Y fideo diweddaraf i'w osod yno yw un sy'n adrodd hanes aelodau Capel y Nant, Clydach, yn cynnal gweithgareddau arbennig fel rhan o'r Wythnos Werdd.

Ydych chi yn cael trafferth i gael pregethwyr ar y Sul? Neu beth ydych yn ei wneud pan mae pregethwyr yn torri ei gyhoeddiad ar yr rybudd. Wel, hefyd y mae cyfres o bregethau yn cael eu gosod er mwyn i eglwysi eu defnyddio mewn gwasanaethau os nad oes ganddyn pregethwyr. Maent yn cynnwys dolenni i lawrlwytho'r



fideo, y sript (os ydych am draddodi'r bregeth eich hunain) a chyflwyniad pwynt pŵer hefyd. Eisoes y mae pregethau gan y Parchedigion Beti-Wyn James a Rhys Locke. Beth am ymweld â'r sianel YouTube er mwyn gwyllo'r arlwy. Mae tudalen ar ein gwefan Saesneg hefyd.

www.annibynwyr.cymru



Barn Annibynnol

Cadw a thrysori

Sut mae mynd ati i benderfynu beth ddylid ei gadw a'i thrysori? Dyna gwestiwn agos i'r asgwrn ar hyn o bryd ym myd y celfyddydau. Mewn adolygiad o berfformiad gan Opera Cenedlaethol Cymru yr wythnos diwethaf dywedodd Stephen Walsh ar wefan The Arts Desk: 'we should be celebrating this company as a national treasure, not putting it to death by a thousand cuts.' Nid y cwmni opera yw'r unig sefydliad sydd dan fygythiad- mae'n wir am nifer o'n trysorau diwylliannol a chenedlaethol.

Beth yw trysor?

Ysgogwyd fi i ystyried beth yw trysor? Dyma awgrym fel ateb- rhywbeth prin a phrydferth, o ansawdd da, sy'n hynafol ond eto'n gyfoes- hynny yw yn fyw! Wrth drafod hyn gydag Anna Vivian Jones, rhannodd ei hatgofion o bregeth werthfawr gan y Parchedig Desmond Davies ac yn enwedig felly stori oedd ganddo am fachgen yn dyheu am gael dysgu canu'r ffidil. Aeth mam y bachgen ati i gynilo er mwyn prynu offeryn iddo. Roedd y mab ifanc wrth ei fodd o gael y ffidil, ond yna un dydd aeth y ffidil ar goll. Wedi i rhywun ddod o hyd iddo o dan fws ysgol, sylwyd mai yr enw tu mewn i'r offeryn oedd 'Stradivarius'! Dim ond wrth gollir trysor y sylweddolwyd ei werth. Gwae ni rhag gadael i'n trysorau boed yn sefydliadau, y 'pethau' sy'n werth eu cadw, neu bobl sy'n annwyl yn ein golwg, lithro fel tywod rhwng ein bysedd ac i ni sylweddoli ein colled pan y bydd yn rhy hwyr. Dywedodd Arfon Jones yn un o sesiynau hyfforddiant diweddar yr Annibynnwyr ar 'Ddeall yr Ysgrythurau' bod llyfr Deuteronomium yn pwysleisio pa mor bwysig yw cadwraeth yng nghydestun gofalu am ein gilydd. Gwnawn yn fawr o bob cyfle i gefnogi ein gilydd a byddwn ddewr fel Cristnogion wrth godi ein lleisiau dros y pethau sydd wirioneddol angen eu harddel.

Dolgellau

Cefais fy magu yn nhref Dolgellau sydd â nifer fawr o'i hadeiladau wedi'u cofrestru- y bont fawr, y bythynnod bach, y tai uchel gosgeiddig, a'r capeli i gyd dan ofal CADW sy'n diogelu treftadaeth Cymru. Mae'r adeiladau'n hardd a'r dref yn unigryw yn ei gwedd gweiddiol digynllun. Ond fe all y cyfyngu sy'n digwydd oherwydd i adeilad fod wedi'i gofrestru fod yn fwrn, yn enwedig ar ymddiriedolwyr capel. Didoli beth sy'n ein dal yn ôl a'r hyn sydd o gymorth i barhau sy'n bwysig. Gofynnaf felly- oes wir angen cadw seddau anghyfforddus,

pulpudd uchel pell-i-ffwrdd, sêd fawr yn gosod rhai'n uwch na'r lleill? Ac os oes hualau cofrestredig yn golygu na all y pethau hyn newid yna oes angen cynnal a chadw organ fawr pan fyddai canu i gyfeiliant piano erbyn hyn yn ddigonol (ac yn haws, er trueni, trefnu cyfeilyddion)? Oes angen gwresogi gofod anferth pan byddai gofod y festri yr un mor effeithiol ac efallai yn fwy cyfforddus? Oes angen cadw'r platau casglu pan nad oes gan fawr o neb arian parod yn eu poced y dyddiau hyn, a phawb bron wedi dod i arfer â throsglwyddo arian drwy archeb banc? Nid yw'r pethau hyn yn broblem i bob eglwys, ond y broblem fwyaf yw ein bod yn mynnu cadw rhai pethau er nad ydynt o gymorth inni mwyach.

Cadw mi gei

Clywais gan fy nhad hanes amdano'n disgwyl tâl ar ôl diwrnod o gario gwair a'i gyflogwr yn dweud 'nid yr hyn a geir ond yr hyn a gedwi sydd bwysig'. Dichon nad oedd y dweud hwnn'n cael ei groesawu gan laslanc wedi oriau o weithio dan yr haul crasboeth! Gwnaeth hyn imi feddwl am ystyr yr ymadrodd bach 'cadw-mi-gei'. Ai gwir y meddylfyrd y byddwn ar ein hennill bob tro o llynu at gadwraeth? Fel eglwysy annibynnol, mae angen wrth gwrs inni sicrhau y gallwn fod yn anrhydeddus tuag at ein gweinidogion a gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyflog teilwng a chostau wedi'u had-dalu'n deg. Dylem hefyd fod yn fentrus yn ein cysylltu â'n cymunedau a pheidio â bod ofn gwario er lledaeniad achos a theyrnas Crist. Mae peryg mewn cael ein hudo i gadw pot o arian 'rhag ofn' neu gael ein hudo gan addewid y buddsoddion mawr. Weithiau siawns nad yw 'gwaria-ac-mi-gei' hefyd yn wir. 'Oherwydd lle mae dy drysor, yno hefyd y bydd dy galon' medd Efengyl Matthew, a theimlaf yr angen inni fod ar dân yn ein calonnau, nawr yn fwy nag erioed, i drysori'r pethau gorau.

Credaf y byddai'r Apostol Paul yn dymuno dweud wrthym ni heddiw, fel y dywedodd wrth bobl Corinth: 'Ydych chi ddim yn sylweddoli mai chi gyda'ch gilydd yw teml Dduw? Mae teml Dduw yn gysegredig. A chi yw'r deml honno!' (1 Corinthiaid 16, 17). Gobeithio y byddwch yn cyd-weld â mi mai pobl sy'n bwysig a phobl sy'n gwneud eglwys-pobl mewn perthynas â'i gilydd ac mewn perthynas â Duw. Pobl sy'n parhau i agor pob math o ddrysau ydynt, nid drws yr adeilad yn unig. Ni yw'r adeilad a'r berthynas rhyngom ni â Duw, yn a thrwy Iesu Grist, sy'n peri inni gadw ati a chadw ar y daith ymlaen!

Siân Meinir

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

Gweddi 3 Tad Nefol

Rydym yn edrych ar weddi yn ystod y gyfres achlysurol hon, er mwyn annog ein gilydd i weddio ac i sylweddoli nad rhywbeth sy'n digwydd yn unig mewn oedfa yw gweddi, ond ei fod yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd y Cristion. Gweddi yw siarad gyda Duw. Cynnal sgwrs gydag ef. Mae Duw wedi ein creu i fyw mewn perthynas gydag ef. Stori hyfryd sy'n darlunio gweddi i mi yw hanes y ddau yn cerdded gydag Iesu yn ôl adref i Emaus wedi'r atgyfodiad. Maent ar daith ac mae'r Iesu gyda hwy. Maent yn siarad a thrafod ac mae Iesu yn esbonio'r ysgrythurau iddynt. Maent yn cael eu calonogi ac yn sylweddoli fod yr Iesu wedi atgyfodi. Felly ninnau. Taith yw bywyd, a thrwy ffydd yn Iesu y mae O gyda ni, nid yn gorfforol, ond trwy'r Ysbryd Glân.

Dewch i ni nawr edrych yn fanwl ar weddi'r Arglwydd.

Dylech weddio

Wrth gyflwyno'r weddi dywed Iesu wrth y disgyblion, 'Dyma sut dylech chi weddio' hynny yw, y mae'n gosod patrwm syml, sy'n cynnwys prif elfennau gweddi. Yn arferol nodir y 5 peth canlynol fel prif elfennau gweddi: addoliad, cyffes, deisyfu (gofyn am rywbeth), eiriolaeth (gweddi dros rywun arall), a diolchgarwch. Nid yw'r 5 elfen ym mhob gweddi ond wrth weddio'n gyson byddwn yn cyffwrdd pob un ohonynt yn eu tro.

Mae Iesu'n cymryd yn ganiataol fod Cristnogion yn gweddio gyda'i gilydd. Yn y lluosog y mae'n rhoi'r cyfarwyddyd 'Felly, gweddi'wch chi fel hyn,' (Math. 6:9) meddai. Mae gweddi gyda chyd-Gristnogion yn rhan hollbwysig o fywyd y Cristion a'r eglwys Gristnogol; i ddweud y gwir mae'n anadl einioes iddi.

Ein

Geiriau cyntaf ei weddi yw, 'Ein Tad'. Sylwch eto mai yn y lluosog nid yr unigol y mae y rhain. Nid 'fy nhad' ond 'ein Tad' ac mae hyn yn dweud rhywbeth amdanom ni ac am Dduw. Er bod ein perthynas gyda Duw yn un personol, nid yw hynny yn golygu mai perthynas breifat unigolyddol ydyw. Gwelwn yr un egwyddor yn y 10 gorchymyn. Mae'r 4 cyntaf yn cyfeirio at ein perthynas gyda Duw ac mae'r 6

parhad ar y dudalen gefn

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Gweddi 3 – parhad

dilynol yn sôn am ein perthynas gydag eraill. Hynny yw, y mae ein haddoliad o Dduw wedi ei blethu gydag ein hymwneud â'r bobl sydd o'n cwmpas. Rydym felly i gychwyn ein gweddiâu trwy gydnabod ein bod yn rhan o gymuned o bobl, yn frodyr ac yn chwiorydd i'n gilydd, oherwydd ein bod yn blant i'r Tad nefol.

**Tad**

Yr ail air yw *Tad*. Golyga hyn nifer o bethau.

1. Golyga ein bod wedi ein creu gan Dduw.
2. Golyga ein bod wedi ein mabwysiadu ganddo i fod yn blant iddo. Mae darn hyfryd am hyn yn y Llythyr at y Rhufeiniaid:

'Dydy'r Ysbryd Glân dyn ni wedi'i dderbyn ddim yn ein gwneud yn gaethweision ofnus unwaith eto! Mae'n ein mabwysiadu ni yn blant i Dduw, a gallwn weiddi arno'n llawen, "Abba! Dad!" Ydy, mae'r Ysbryd yn dangos yn glir i ni ein bod ni'n blant i Dduw.'

(Rhufeiniaid 8: 15–17)

Mor rhyfeddol yw'r ffaith ein bod trwy Iesu yn gallu galw ein hunain yn blant Duw:

3. Golyga ein bod, trwy alw Duw yn dad, yn cydnabod ei hawl arnom a'n bod yn ddibynnol arno.
4. Golyga fod ganddo Ef ofal trosom, fel rhiant yn gofalu am ei blant.
5. Golyga fod Duw ein Tad, yn darparu ar ein cyfer.

Awn ymlaen y tro nesaf i edrych ar y cymal dilynol.



Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CYFARFODYDD BLYNYDDOL 2024

gwahoddiad gan

Eglwysi Cyfundeb
Dwyrain Morgannwg

11-13 Gorffennaf 2024

Y Ganolfan Gynadledda,
Prifysgol De Cymru, Trefforest,
Pontypridd.



SIARADWR GWADD

Susan Derber

Llywydd Cyngor Eglwysy'r Byd
12 Gorffennaf 12pm



RHWYDWAITH HEDDWCH

Ron Williams

Llais o Fethlehem
11 Gorffennaf 4pm



NOSON YNG NGHWMNI

Delwyn Siôn

a chyfeillion
11 Gorffennaf 7.30pm



CYMDEITHAS HANES

Richard Huws

'Cofio Wncwl Bill' (Rhys Nicholas)
12 Gorffennaf 4pm




ANERCHIAD Y LLYWYDD

Jeff Williams

13 Gorffennaf 11.30am

Gwybodaeth bellach a'r ffrwd fyw:

annibynwyr.cymru



O Dduw, bendithia ni!
Wedyn bydd pobl
drwy'r byd i gyd
yn dy addoli.

Salm 67